**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni , ddydd Llun, 16 Gorffennaf, 2018**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 19 Gorffennaf, 2018. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 26 Gorffennaf, 2018. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 27 Gorffennaf, 2018.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd am eitemau 1 i 10), R. Meirion Jones, R G Parry OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams (Cadeirydd am eitemau 11 a 12), Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

**Ymddiheuriadau**: Dim

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Lewis Davies, Aled M. Jones, Dylan Rees, Alun Roberts (o eitem 9 ymlaen), Nicola Roberts

(10:00 y. b. tan 12:05 y. p.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 18 Mehefin, 2018 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cofnodion - Panel Rhiant Corfforaethol**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd mabwysiadu cofnodion drafft y cyfarfod o'r Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Mehefin, 2018.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Moderneiddio Ysgolion - Ardal Llangefni (Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn)**<br>Adroddiad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Gwella Partneriaethau, Cymunedau a Gwasanaethau) |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cynyddu capasiti Ysgol y Graig i wneud lle i ddisgyblion Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn.**<br><br>**Bydd hyn yn cael ei wneud trwy:**<br><br>• **Ddefnyddio'r adeilad presennol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 sef blynyddoedd 3 i 6 a'i addasu;**<br>• **Codi "Bloc" newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, sef blynyddoedd Meithrin, Derbyn, 1 a 2;**<br>• **Ystyried adleoli'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg o fewn campws Ysgol y Graig.**<br><br>**Byddai'r "bloc" newydd yn parhau i fod yn rhan o Ysgol y Graig ac nid yn uned ar wahân.**<br><br>**Nododd Aelodau Etholedig y dylai'r trefniant newydd weithredu fel un ysgol ac nid fel dwy uned ar wahân.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn bwrw ymlaen gyda'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod** |

| | |
|---|---|
| | **Awst, 2018 i Mawrth, 2019 fel y'i chyflwynwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn cryfhau trefniadau atebolrwydd a blaengynllunio** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Cyfrifon Terfynol Drafft 2017/18**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br><br>• **Nodi'r prif ddatganiadau ariannol (heb eu harchwilio) ar gyfer 2017/18.**<br>• **Nodi'r sefyllfa o ran arian wrth gefn clustnodedig a chymeradwyo'r defnydd o, neu gynnydd i gronfeydd wrth gefn unigol fel y nodir yn Atodiad 4 yr adroddiad.**<br>• **Cymeradwyo'r cronfeydd wrth gefn newydd, cyfanswm o £0.513m fel a nodir yn Nhabl 3 yr adroddiad.**<br>• **Nodi'r sefyllfa o ran balansau'r ysgolion.**<br>• **Nodi balansau'r CRT fel yr oeddent ar 31 Mawrth, 2018.**<br>• **Nodi'r costau Ymgynghori ar gyfer Chwarter 4.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Derbyn y prif ddatganiadau ariannol ar gyfer 2017/18.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Strategaeth Gwrth-Dlodi**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –** |

| | |
|---|---|
| | • **Cymeradwyo'r Strategaeth Gwrth Dlodi fel y'i cyflwynwyd.**<br>• **Bod Gwasanaethau yn cynnwys y Strategaeth fel amcan o fewn y Cynllun Darparu Gwasanaeth yn flynyddol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo'r Strategaeth Gwrth Dlodi** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2017/18**<br>Adroddiad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)/ Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd derbyn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol fel adlewyrchiad cywir o effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2017/18.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth ac atebolrwydd ar gyfer perfformiad a'r cynnydd a wnaed wrth ddarparu Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2017/18.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na.Bydd y mater yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Gweledigaeth a Strategaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru: Cytundeb Llywodraethiant**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd) |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Nodi a chroesawu'r cynnydd ar ddatblygu'r Bid Bargen twf.** |

| | |
|---|---|
| | • **Bod cam cyntaf y Cytundeb Llywodraethiant yn cael ei gymeradwyo, ar yr amod bod y Cyngor yn cymeradwyo'r trefniadau Anweithredol h.y. y trefniadau sgriwtini.**<br><br>• **Bod y Cyngor Llawn yn cael drafft terfynol o'r Bid Bargen Twf ar gyfer ei adolygu a'i gymeradwyo ym Medi/Hydref 2018 cyn iddo gyrraedd cam y Penawdau Telerau gyda'r ddwy Lywodraeth.**<br><br>• **Argymell bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro mewn cyd-weithrediad â'r Arweinydd i gwblhau amodau'r Cytundeb Llywodraethiant yn unol i raddau helaeth â'r drafft sydd ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad.**<br><br>• **Argymell bod y trefniadau Gweithredol sydd wedi eu cynnwys yn y Cytundeb Llywodraethiant yn cael eu cynnwys yn y Cyfansoddiad a gofyn i'r Cyngor gynnwys y trefniadau Anweithrdol yn ymwneud â Sgriwitni yn y Cyfansoddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Mabwysiadu Cytundeb Llywodraethiant 1 ar gyfer Bid Bargen Twf Gogledd Cymru** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Bydd y mater yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn** |

# EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 Dyfodol Neuadd y Sir, Llangefni**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd) |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd awdurdodi'r Gwasanaethau Eiddo i weithredu yn unol ag argymhelliad yr adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo gweithredu mewn perthynas a Neuadd y Sir, Llangefni** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Mae'r penderfyniad wedi'i eithrio rhag cael ei alw i fewn oherwydd yr ystyrir ei fod yn benderfyniad brys.** |